# Asesiad o werth economaidd Urdd Gobaith Cymru 2023

Adroddiad i **Urdd Gobaith Cymru**
Gan gwmni ymchwil **Arad**

*Tachwedd 2023*

Arad Research
8 Columbus Walk
Brigantine Place
Cardiff / Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.aradresearch.com

# Crynodeb: effaith economaidd Urdd Gobaith Cymru


## Gwerth economaidd yr Urdd yn genedlaethol



- Cynhyrchodd **Urdd Gobaith Cymru** werth economaidd o **£44.9m yng Nghymru** yn 2022-23 (cynnydd o 76% ers 2018) yn cynnwys:
    - Effaith uniongyrchol o **£15.4m** drwy wariant ar nwyddau, gwasanaethau a staff yng Nghymru
    - Effaith anuniongyrchol o **£10.6m** drwy wariant ymwelwyr i **eisteddfodau**, **gwersylloedd** a gweithgareddau **chwaraeon**
    - Effaith wedi'i ysgogi o **£18.9m** drwy wariant wedi ei sbarduno gan yr uchod (ffigyrau uchod wedi'u talgrynnu)

- Derbyniodd yr Urdd **incwm** o **£19.6 miliwn** yn 2022-23
- **Am bob £1** o incwm a dderbyniwyd gan yr Urdd cynhyrchodd y mudiad **werth economaidd yng Nghymru o £2.29**
- **Am bob £1 o incwm** a dderbyniwyd, cynhyrchodd **Eisteddfod yr Urdd werth o £6.96**

## Enillion ar fuddsoddiad




## Gwerth economaidd y gwersylloedd

- Fe ddarparodd **gwersylloedd** yr Urdd yn Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd lety i **dros 103,000 o nosweithiau ymwelwyr** yn cynnwys plant, athrawon a theuluoedd yn ogystal ag ymwelwyr undydd
- Ar lefel leol, cynhyrchodd **wersylloedd yr Urdd** gyfanswm o **£7.9m** o werth economaidd o fewn eu hardaloedd, oherwydd eu gwariant ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau yn ogystal â gwariant lleol gan **yr ymwelwyr**:
    - **£3.2m yng Ngheredigion** gan wersyll **Llangrannog** (£7.8m yng Nghymru)
    - **£3.2m yng Ngwynedd** gan wersyll **Glan-llyn** (£4.5m yng Nghymru)
    - **£1.4m yng Nghaerdydd** gan wersyll **Caerdydd** (£3.2m yng Nghymru) (ffigyrau uchod wedi eu talgrynnu)

- Cynhyrchodd **weithgareddau chwaraeon** yr Urdd **£6.1m** o werth economaidd yng Nghymru – drwy wariant uniongyrchol gan yr adran chwaraeon a gwariant gan 28,000 o gyfranogwyr a mynychwyr clybiau, cystadlaethau, gweithgareddau teulu a digwyddiadau fel Gemau Stryd / Urban Games a rygbi 7-bob-ochr

## Gwerth yr adran chwaraeon







## Gwerth economaidd Eisteddfod yr Urdd




- Cynhyrchodd **Eisteddfodau** lleol a chenedlaethol yr Urdd 2023 werth economaidd o **£16.0m yng Nghymru**
- Cynhyrchodd **Eisteddfod genedlaethol** yr Urdd 2023 **£8.5m** yn yr ardal leol (Sir Gaerfyrddin)
- Gwariodd ymwelwyr Eisteddfod **£5.8 miliwn** ar nwyddau a gwasanaethau gan sefydliadau wedi eu lleoli yn Sir Gaerfyrddin.

- Mae'r Urdd yn cynnig prentisiaethau o fewn y sectorau Chwaraeon, Chwaraeon mewn Addysg, Gofal Plant, Awyr Agored a Gwaith Ieuenctid
- Yn gyfredol, mae'r Urdd yn gweithio mewn partneriaeth a **56 o gyflogwyr** i gynnig prentisiaethau allanol ac mae **149 wrthi'n gweithio tuag at** eu prentisiaeth
- Ers 2016 mae **434 wedi cychwyn** prentisiaeth a **290 wedi cyflawni** prentisiaeth
- Mae **80%** o'r rheini a gwblhaodd prentisiaeth yn adrannau'r Urdd **mewn cyflogaeth gyda'r Urdd**




## Adran brentisiaethau'r Urdd



## Gwaith cymunedol ac ieuenctid




- Gwariodd adran ieuenctid a chymuned yr Urdd £1.5m yn 2022-23
- Mae tystiolaeth yn dangos bod gwaith ieuenctid yn cynhyrchu enillion ar werth o £3 am bob £1 a fuddsoddir
- Awgryma hyn y gallai gwerth cymdeithasol gwariant adran ieuenctid a chymuned yr Urdd fod yn **£4.5m**

## Effeithiau ehangach yr Urdd

Dengys data o **arolwg o bobl ifanc** bod mwyafrif llethol y sampl oedd wedi **cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd** dros haf 2023 yn cytuno eu bod wedi gwneud cynnydd mewn amryw o feysydd gan gynnwys:

Dengys arolwg **llais y dysgwr** bod gan **brentisiaid** yr Urdd farn bositif ar eu cynnydd a'r gefnogaeth y maent yn ei dderbyn.

### Sgiliau cymdeithasol

**Sgiliau cymdeithasol**

- **89%** yn teimlo'n **'fwy hyderus mewn sefyllfaoedd cymdeithasol'**
- **93%** yn teimlo'n **'fwy parod i gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill'**
- **87%** yn teimlo'n **'fwy hyderus wrth gyfathrebu'**

### Agweddau at y Gymraeg

**Agweddau at y Gymraeg**

- **92%** yn teimlo'n **'teimlo'n fwy positif am yr iaith Gymraeg'**
- **88%** yn teimlo'n **'fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith Gymraeg'**
- **73%** yn **'teimlo fy mod yn deall mwy am Gymru'**

### Lles a sgiliau emosiynol

**Lles a sgiliau emosiynol**

- **80%** yn **'fwy parod i rannu fy marn'**
- **83%** yn **'deall bod fy nghyfraniad i mor werthfawr â chyfraniad pawb arall'**
- **70%** yn **'fwy tebygol o ofyn am gymorth pan rwyf ei angen'**
- **88%** yn **'gwybod fod gen i nifer o nodweddion positif'**
- **89%** yn **'teimlo'n fwy balch o fy hun'**

### Llais y Dysgwr (prentisiaethau)

Prentisiaethau

**Sgiliau hanfodol**

- **87%** yn teimlo bod eu **sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol** yn datblygu

**Y Gymraeg**

- **98%** wedi nodi eu bod yn aml yn **defnyddio'r Gymraeg yn eu cwrs neu yn eu gweithle.**

**Cefnogaeth**

- **93%** yn teimlo bod **ymarferwyr yn rhoi adborth i'w cefnogi'n dda**
- Roedd **95%** o'r dysgwyr yn credu bod yr **Urdd yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol yn dda.**
- **100%** yn teimlo bod **staff wedi eu helpu i ymgartrefu ar eu cwrs yn dda**

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Comisiynodd Urdd Gobaith Cymru gwmni ymchwil Arad i gwblhau asesiad o werth economaidd y mudiad. Nod yr asesiad oedd adnabod gwerth economaidd yr Urdd yn genedlaethol yn ogystal a gwerth economaidd nifer o'u hadrannau unigol gan gynnwys gwersylloedd Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd, yr adran chwaraeon, yr adran brentisiaethau, Eisteddfod yr Urdd ac adran ieuenctid a chymunedol yr Urdd. Nod arall yr astudiaeth fu hefyd adnabod sut mae'r gweithgareddau a ddarperir gan yr adrannau hyn – yn enwedig yr adran ieuenctid a chymuned – wedi effeithio ar sgiliau, hyder ac agwedd ieuenctid yr Urdd tuag at Gymru a'r Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau'r asesiad ac yn dilyn asesiad blaenorol o werth economaidd yr Urdd yn 2018.

## 1.1 Urdd Gobaith Cymru

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol mwyaf Cymru. Sefydlwyd y mudiad yn 1922 i roi cyfleoedd a phrofiadau, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i ieuenctid Cymru ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn hyderus. Mae'r mudiad yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth i blant a phobl ifanc gan gynnwys:

- Gwersylloedd yng Ngwynedd (Glan-llyn), Ceredigion (Llangrannog), Caerdydd a Sir Benfro (Pentre Ifan)
    - Mae'r Urdd wedi buddsoddi £2.5m o arian cyfalaf i wella'r gwersylloedd yn ystod 2022-23, ac ail-agorwyd Gwersyll Amgylcheddol a Lles, Pentre Ifan ym mis Medi 2023
- Chwaraeon: drwy clybiau wythnosol, digwyddiadau a chystadlaethau cenedlaethol a rhanbarthol
- Prentisiaethau: yn cynnig darpariaeth i unigolion a chyflogwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys yr hwb sgiliau hanfodol
- Celfyddydau: drwy darparu gweithgareddau gydol y flwyddyn, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a'r ŵyl TRIBAN
- Gwaith cymuned ac ieuenctid: drwy gynnig darpariaeth gymunedol wythnosol, preswyl, ymweliadau ysgolion, digwyddiadau hanner tymor ac achrediadau
- Gwaith rhyngwladol: teithiau sy'n roi profiadau i bobl ifanc a chyfle iddynt i lysgenhadu dros Gymru a'r iaith a dysgu wrth eraill
- Gwasanaethau Awyr Agored: profiadau antur a sialensau a heriau yn yr awyr agored
- Cylchgronau: cyhoeddiadau ddigidol IAW a  CIP

Ar draws yr ystod uchod o waith, mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli gan gynnwys cefnogi clybiau wythnosol, 'swogio' yn y gwersylloedd a chefnogi teithiau tramor a theithiau undydd.

### Strwythur a llywodraethiant

Mae'r Urdd yn elusen ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Yn 2022, fe wnaeth yr Urdd ailstrwythuro trefniadau llywodraethol y mudiad. Bellach mae gan yr 6 Bwrdd Strategol (cyfanswm o 61 o aelodau), sy'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr (17 aelod) er mwyn ddatblygu a chraffu ar waith y mudiad, sef:

- Bwrdd Busnes
- Bwrdd Adnoddau Dynol
- Bwrdd Chwaraeon a Phrentisiaid
- Bwrdd Gwersylloedd
- Bwrdd y Celfyddydau
- Bwrdd Rhyngwladol

Ers ail strwythuro llywodraethiant yr Urdd, mae'r mudiad wedi cynnwys pobl ifanc 18-25 oed yn aelodau llawn ar holl Fyrddau yr Urdd ac maent yn ganolog i drafodaethau a chyfeiriad yr Urdd at y dyfodol. Mae 23 o bobl ifanc yn aelodau o fyrddau'r Urdd, sef 38% o holl aelodau'r byrddau. Noda chynllun Strategol yr Urdd - *Urdd i Bawb* - ei bod yn fwriad gan y mudiad i sefydlu Bwrdd Gwaith Ieuenctid yn y dyfodol.

### Trosiant a chyflogaeth

Roedd gan yr Urdd drosiant o £19.6 miliwn yn 2022-23 ac roedd yn cyflogi 362 o staff mewn lleoliadau ar draws Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried effaith gwariant yr Urdd ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau staff yng Nghymru ac yn edrych ar werth economaidd adrannau unigol o'r mudiad yn genedlaethol ac ar lefel leol.

Mae'r 362 o staff a gyflogir gan yr Urdd yn cynnwys 217 llawn amser, 59 rhan amser a 86 o weithwyr achlysurol. Mae'r Urdd yn cynnig ystod o gyfleoedd i bobl ifanc, gan gyflogi 153 o staff llawn, rhan amser ac achlysurol sydd o dan 25 oed; mae hyn yn cyfateb i 42% o weithlu'r Urdd, sy'n ganran sylweddol. Mae 23 o staff y mudiad yn brentisiaid. Mae'r Urdd yn un o'r 500 o gyflogwr achrededig cyflog Byw i Gymru.

### Newidiadau ers 2018

Ers i asesiad o werth economaidd yr Urdd gael ei gwblhau ddiwethaf yn 2018, mae gweithgareddau'r Urdd wedi ehangu mewn sawl ffordd. Y newidiadau mwyaf arwyddocaol yw bod:

- gwerth economaidd yr Urdd i Gymru wedi cynyddu o £25.5m yn 2017-18 i £44.9m yn 2022-23, sef cynnydd o 76%.
- trosiant yr Urdd wedi cynyddu o £10.2m yn 2017-18 i £19.6m yn 2022-23, sef cynnydd o 88%

- cynnydd wedi bod yn y nifer o brentisiaethau newydd y flwyddyn o 35 yn 2017-2018 i 73 yn 2022/23, sef cynnydd o 109%
- buddsoddiad cyfalaf sylweddol wedi bod yng ngwersylloedd Llangrannog, Glan-llyn a Phentre Ifan.

### Gwersylloedd yr Urdd

Fel nodwyd uchod, mae gan yr Urdd bedair gwersyll bellach. Mae'r asesiad yn ystyried effaith y tri gwersyll a oedd yn weithredol yn ystod 2022-23 sef Llangrannog yng Ngheredigion, Glan-llyn yng Ngwynedd a Gwersyll Caerdydd. Yn 2022/23, mi wnaeth y gwersylloedd groesawi ymwelwyr am gyfanswm 103,086 o nosweithiau ymweld:

- Llangrannog - 59,740
- Glan-llyn - 25,326
- Caerdydd - 18,020

Mae'r asesiad yn ystyried effaith gwariant yr ymwelwyr hyn yng Ngwynedd, Ceredigion a Chaerdydd yn ogystal a gwariant y gwersylloedd ar nwyddau, gwasanaethau a staff yn eu dalgylchoedd.

### Adran chwaraeon yr Urdd

Mae adran chwaraeon yr Urdd yn trefnu clybiau rheolaidd, cystadlaethau, sesiynau teulu a digwyddiadau eraill ledled Cymru. Dengys data yr Urdd ar gyfer 2017/18 bod 27,900 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu trefnu gan yr adran chwaraeon yn cynnwys:

- Gemau stryd / Urban games - 8000
- Rygbi saith bob ochr - 5000
- Chwaraeon cynradd - 3000 (2000 o blant + 1000 rhieni)
- Rygbi traeth - 2500 o blant
- Pêl rwyd - 1400 o ferched
- Clybiau wythnosol - 8000 o blant.

### Eisteddfod yr Urdd

Mae Eisteddfod yr Urdd yn rhan bwysig o weithgareddau'r Urdd ac yn cynrychioli cyfran sylweddol o incwm a gwariant y mudiad. Yn 2023, buodd 90,000 o blant a phobl ifanc yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a Chenedlaethol yr Urdd. Mae 270,000 o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn profi gwerth yr eisteddfod yn flynyddol drwy ymgysylltu â'r Eisteddfod mewn rhyw ffordd. Yn ogystal, fe wnaeth ymwelwyr a fynychodd Eisteddfod yr Urdd yn Sir Gar, ddod a budd economaidd sylweddol i'r ardal.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried effaith economaidd y gwariant oedd yn gysylltiedig â chynnal Eisteddfod yr Urdd. Mae hyn yn cynnwys gwariant gan yr Urdd ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau staff parhaol ac achlysurol yng Nghymru ac yn Sir Gaerfyrddin. Mae hefyd yn ystyried y budd economaidd a ddaeth i ardal Sir Gaerfyrddin yn sgil gwariant gan ymwelwyr i'r ardal.

### Adran prentisiaethau

Yn 2022/23 cofrestrodd 73 o bobl ifanc ar un o brentisiaethau a ddarperir gan yr Urdd mewn meysydd yn gynnwys gofal, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored a gwaith ieuenctid. Mae rhaglen brentisiaid yr Urdd wedi tyfu'n sylweddol ers 2017/18.

### Adran ieuenctid a chymuned

Mae'r Urdd, trwy ei gwaith ieuenctid a chymuned, yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau unigryw i bobl ifanc ledled Cymru gan cynnwys:

- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Profiadau preswyl
- Cyrsiau ac achrediadau
- Clybiau cymunedol ac ysgol
- Fforymau Ieuenctid
- Teithiau rhyngwladol
- Theatr Ieuenctid.

## 1.2 Y fethodoleg

Mae'r dadansoddiad o werth economaidd Urdd wedi'i seilio ar y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Effeithiau uniongyrchol** | • Gwariant uniongyrchol gan yr Urdd ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau staff yn gysylltiedig a gweithgareddau'r mudiad. |
| **Effeithiau anuniongyrchol** | • Incwm a gwariant wedi'i gynhyrchu drwy wariant gan ymwelwyr i'r gwersylloedd, gweithgareddau chwaraeon ac eisteddfodau lleol a chenedlaethol yr Urdd. |
| **Effeithiau wedi'i ysgogi** | • Cyfraniadau at incwm a gwariant drwy'r gadwyn gyflenwi o ganlyniad i weithgareddau craidd yr Urdd. |

Mae'r dull o amcangyfrifo gwerth economaidd yr Urdd yn seiliedig ar gysyniad effaith lluosydd Keynesaidd (Keynesian Multiplier Effect). Mae'r effaith hwn yn cymryd i ystyriaeth bod:

- gwariant gan yr Urdd (neu adrannau unigol y mudiad) yn creu incwm ar gyfer busnesau ac unigolion eraill o fewn yr economi leol neu chenedlaethol.
- yr incwm hwn i fusnesau ac unigolion yn sbarduno rowndiau o wariant pellach gan y sawl sy'n ei dderbyn, gyda pheth yn cael ei gadw'n ôl neu ei wario y tu allan i'r economi leol ym mhob rownd o wariant.
- y broses hon hyn mynd yn ei blaen hyd nes bod yr incwm lleol a gaiff ei greu yn lleihau i lefel sy'n ddibwys.

Cyfanswm y gwerth economaidd i'r economi leol yw swm y rowndiau hyn o wariant. Mae'r ffigyrau gwerth economaidd sy'n deillio o hyn yn adlewyrchu'r effaith economaidd uchaf y mae'n debygol y byddai'n deillio o gyfraniadau'r Urdd i'r economi.

Mae'r canfyddiadau i gyd wedi'u seilio ar y flwyddyn ariannol 2022-23. Mae'r astudiaeth wedi cynnwys ymchwil primaidd ac eilaidd, gan gynnwys:

- dadansoddiad o ddata incwm a gwariant yr Urdd, a ffigyrau canolog y mudiad ar niferoedd yr ymwelwyr â gwersylloedd, Eisteddfodau, digwyddiadau, clybiau a gweithgareddau
- arolwg o gyflenwyr yr Urdd
- arolwg o staff yr Urdd
- arolwg o ymwelwyr Eisteddfod yr Urdd 2023
- arolwg o bobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau'r Urdd yn ystod haf 2023
- dadansoddiad o ddata gweithlu yr Urdd a niferoedd prentisiaethau.

## 1.3 Ffynonellau data

Derbyniwyd data ar incwm a gwariant yr Urdd yn seiliedig ar y flwyddyn 2022-23 (ag eithrio'r Eisteddfod – gweler isod) a defnyddiwyd hwn i ganfod yr effaith **uniongyrchol** yng Nghymru yn ogystal ag ardaloedd lleol y gwersylloedd. Roedd y data a dderbyniwyd gan yr Urdd yn ein galluogi i adnabod faint o wariant y mudiad aeth at gyflenwyr a staff yn ôl eu lleoliad. Galluogodd hwn i ni adnabod yr effaith uniongyrchol ar Gymru ac ardaloedd lleol y gwersylloedd.

Defnyddiwyd data niferoedd ymwelwyr a data gwariant canolog Eisteddfod 2023, er nad oedd hwnnw o fewn y flwyddyn ariannol 2022-23. Gwnaethpwyd hynny er mwyn sicrhau bod yr asesiad mor gyfredol a phosib.

Ar gyfer yr effaith **anuniongyrchol**, defnyddiwyd data o arolwg o ymwelwyr Eisteddfod yr Urdd 2023 yn ogystal ag amcangyfrifon o wariant ymwelwyr â gwersylloedd, gweithgareddau chwaraeon ac Eisteddfodau lleol yr Urdd. Casglwyd data gan 531 o ymwelwyr ag eisteddfod yr Urdd 2023 drwy arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau a oedd yn ein galluogi i amcangyfrif cyfartaledd gwariant ymwelwyr ar y maes ac yn yr ardal leol. Roedd rhain yn cynnwys:

- Lle'r oedd ymwelwyr yn byw
- Nifer y dyddiau yr ymwelwyd a'r maes
- Nifer y nosweithiau yr arhosodd ymwelwyr yn lleol, a'r math o lety
- Gwariant ar lety, nwyddau a gwasanaethau yn lleol
- Gwariant ar nwyddau a gwasanaethau ar y maes. [1]

Ar gyfer yr effaith **wedi'i ysgogi**, defnyddiwyd data o arolwg o staff yr Urdd er mwyn amcangyfrif pa gyfran o'r incwm y maent yn ei dderbyn gan yr Urdd sydd yn cael ei wario yng Nghymru ac yn eu hardal leol. Cwblhaodd 88 allan o 299 o staff yr Urdd holiadur –

[1] Mae'r dull o ddewis ymatebwyr (sampl cyfleus) yn golygu na ellir ystyried y sampl o ymatebwyr fel sampl a ddewiswyd ar hap, ac felly ni ellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth gyfan o ymwelwyr Eisteddfod yr Urdd. Dylid defnyddio profion o arwyddocâd ystadegol ar gyfer samplau tebygolrwydd yn unig. Fodd bynnag, pe bai'r sampl o ymatebwyr yn sampl ar hap go iawn, yna byddai'r sampl a gyflawnwyd (531 o ymwelwyr) yn ein galluogi i adrodd ar ganlyniadau'r arolwg gyda lefel hyder o 95% yn seiliedig ar gyfwng hyder o 5% ar gyfer ymwelwyr. Yn ystadegol, byddai hyn yn ein galluogi i ddatgan gyda hyder o 95% bod ein hymatebion sampl o fewn 5% o'r 'gwir' ganran ar gyfer poblogaeth yr ymwelwyr.

cyfradd ymateb o 29%. Casglwyd data gwariant gan 81 allan o 481 o gyflenwyr yr Urdd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru – cyfradd ymateb o 17%.[2]

O ran **effeithiau ehangach yr Urdd**, adolygwyd data ar niferoedd a phroffil prentisiaid yr Urdd, a casglwyd data arolwg gan 103 o bobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau yr Urdd yn ystod haf 2023. Gofynnwyd iddynt nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno gyda chyfres o ddatganiadau mewn perthynas â'u canfyddiadau o effaith y gweithgareddau ar:

- Eu sgiliau cymdeithasol
- Eu sgiliau ac agweddau at y Gymraeg
- Eu lles a sgiliau emosiynol
- Eu mwynhad o'r gweithgareddau.[3]

Yn ogystal, defnyddiwyd data eilaidd o arolwg llais y dysgwr o 45 o brentisiaid yr Urdd.

[2] Sampl cyfleus a ddefnyddiwyd yn hytrach na sampl ar hap. Pe bai'r samplau o ymatebwyr yn samplau ar hap, byddai'r meintiau sampl a gyflawnwyd (88 o staff ac 81 o gyflenwyr) yn ein galluogi i adrodd ar ganlyniadau'r arolygon gyda lefel hyder o 95% yn seiliedig ar gyfwng hyder o 9% ar gyfer staff a 10% ar gyfer cyflenwyr. Gweler troednodyn 1 am esboniad pellach.
[3] Sampl cyfleus a ddefnyddiwyd yn hytrach na sampl ar hap. Pe bai'r sampl o ymatebwyr yn sampl ar hap, yna byddai maint y sampl a gyflawnwyd (103) yn ein galluogi i adrodd ar ganlyniadau'r arolwg gyda lefel hyder o 95% yn seiliedig ar gyfwng hyder o 10%. Gweler troednodyn 1 am esboniad pellach.

## 2. Canfyddiadau: gwerth economaidd

Cyflwynir canfyddiadau'r asesiad economaidd isod ar gyfer yr Urdd yn ei gyfanrwydd yn gyntaf, gyda'r canfyddiadau ar gyfer adrannau unigol y mudiad yn dilyn hynny.. Mae'n bwysig nodi bod y ffigyrau isod wedi'u talgrynnu felly nid yw'r gwerthoedd a nodir ar gyfer elfennau unigol bob tro'n cyfateb i'r cyfanswm a nodir.

### 2.1 Gwerth economaidd yr Urdd i Gymru

**Cyfanswm gwerth economaidd yr Urdd i Gymru: £44.9m***

Uniongyrchol: £15.4m
Anuniongyrchol: £10.6m
Wedi'i ysgogi: £18.9m

*Ffigyrau wedi'u talgrynnu felly yw'r gwerthoedd a nodir ar gyfer elfennau unigol bob tro'n cyfateb i'r cyfanswm a nodir

#### Effaith uniongyrchol yr Urdd yng Nghymru


Mae data gwariant canolog yr Urdd yn dangos y gwnaeth y mudiad wario cyfanswm o:

- £11.0m ar nwyddau a gwasanaethau yn 2022-23, gyda 75% o hwn (£8.3m) wedi ei wario gyda chyflenwyr wedi'u lleoli yng Nghymru.
    - Roedd hyn yn cynnwys gwariant cyfalaf o £2.5m (97% o hwnnw gan fusnesau yng Nghymru) i wella'r cyfleusterau yn ngwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog, Pentre Ifan a Glan-llyn
- £7.1m ar gyflogau staff, sydd i gyd yn byw yng Nghymru.

Golyga hyn mai cyfanswm effaith **uniongyrchol** yr Urdd ar economi Cymru yn 2022-23 oedd £15.4m.

**Effaith uniongyrchol yr Urdd: £15.4m**

Yn cynnwys:
- Nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru £8.3m
- Cyflogau staff sy'n byw yng Nghymru £7.1m



## Effaith anuniongyrchol yng Nghymru

O ran yr effaith **anuniongyrchol,** mae gweithgareddau'r Urdd, gan gynnwys yr Eisteddfodau lleol a chenedlaethol, y gwersylloedd, gweithgareddau a chystadlaethau chwaraeon yn denu cystadleuwyr, cyfranogwyr ac ymwelwyr i ardaloedd ar draws Cymru. Gellir amcangyfrif eu gwariant hwy drwy ddefnyddio arolwg gan dros 500 o ymwelwyr i Eisteddfod yr Urdd 2023 yn Sir Gaerfyrddin yn ogystal a data'r Urdd ar niferoedd ymwelwyr a'u patrymau gwariant. Dengys y dadansoddiad y canlynol:

- Amcangyfrifir bod ymwelwyr i'r **gwersylloedd** yn gwario £1.3 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau yn ardaloedd Ceredigion, Gwynedd a Chaerdydd (e.e. trafnidiaeth, siopau, ymweld ag atyniadau) yn ystod eu hymweliadau.


- Amcangyfrifir bod ymwelwyr i glybiau rheolaidd a digwyddiadau **chwaraeon** yr Urdd (e.e. Gemau Stryd) yn gwario £1.9 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau mewn gwahanol ardaloedd o Gymru (e.e. trafnidiaeth, siopau, ymweld ag atyniadau) yn ystod eu hymweliadau (ffigyrau wedi eu talgrynnu).

- Ar sail data arolwg ymwelwyr yr **Eisteddfod**, amcangyfrifir bod gwariant gan ymwelwyr yn ardal Sir Gaerfyrddin gyfwerth a gwario £7.4m ar y canlynol:
  - £3.8m ar lety preifat yn yr ardal (e.e. gwestai)
  - £1.7m gyda busnesau o Gymru ar y maes (e.e. stondinau, arlwyo)
  - £1.5m ar nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol eraill yn ystod eu hymweliad (e.e. bwytai, siopau, trafnidiaeth).[4]
  - Yn ogystal, amcangyfrifir bod cystadleuwyr ac ymwelwyr yn gwario £0.5m tra'n ymweld ag Eisteddfodau lleol a rhanbarthol yn eu hardaloedd lleol (ffigyrau wedi eu talgrynnu).

### Effaith anuniongyrchol yr Urdd: £10.6m

Yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Gwariant ymwelwyr Eisteddfodau | £7.4m |
| Gwariant ymwelwyr y gwersylloedd | £1.3m |
| Gwariant ymwelwyr clybiau a digwyddiadau chwaraeon | £1.9m |



## Effaith wedi'i ysgogi yng Nghymru


O ran yr effaith **wedi'i ysgogi**, mae'r data a gasglwyd o arolwg cyflenwyr yr Urdd yn awgrymu bod busnesau, ar gyfartaledd, yn gwario 90% o'r incwm y maent yn ei ennill (eu tueddiad gwario) a bod 73% o'r gwariant hwnnw ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau staff yng Nghymru (cyfradd cadw).[5] Defnyddiwyd data o arolwg o staff yr Urdd ynghyd a

[4] Gweler adran 2.5 am ragor o fanylion
[5] Mae hyn yn gyson ar y cyfan â chyfraddau cadw cyfartalog mewn arolygon blaenorol o gyflenwyr yr Urdd yn ogystal â chyfraddau proffidioldeb net cyfartalog cwmnïau yn y DU.

data ar gyfraddau arbed cenedlaethol i amcangyfrif bod 41% o incwm staff yr Urdd yn cael ei wario yng Nghymru.

Drwy ddefnyddio’r cyfraddau uchod, amcangyfrifir bod y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol uchod yn arwain at effaith wedi’i ysgogi o £18.9m.

**Effaith wedi’i ysgogi gan yr Urdd: £18.9m**



| Yn cynnwys: | |
|---|---|
| Gwariant a ysgogir drwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau | £15.3m |
| Gwariant a ysgogir drwy wariant yr Urdd ar gyflogau | £3.6m |

### Newid ers 2018

Dengys y data bod gwerth economaidd yr Urdd i Gymru wedi cynyddu o £25.5m yn 2017-18 i £44.9m yn 2022-23, sef cynnydd o 76%.

## 2.2 Gwerth economaidd gwersylloedd yr Urdd

Yn ystod 2022-23, fe ddarparodd gwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd lety i dros 103,000 o nosweithiau ymwelwyr yn cynnwys plant, athrawon a theuluoedd yn ogystal ag ymwelwyr undydd. Mae’r dadansoddiad yn dangos bod gwersylloedd yr Urdd wedi cynhyrchu gwerth economaidd o £7.9m i’w hardaloedd lleol drwy gyfuniad o:

- wariant uniongyrchol gan y gwersylloedd ar nwyddau, gwasanaethau a staff
- gwariant cyfalaf uniongyrchol ar welliannau i’r cyfleusterau
- gwariant lleol gan ymwelwyr.

Isod, cyflwynir y dadansoddiad ar gyfer y gwersylloedd yn unigol gan gynnwys gwerth Llangrannog yng Ngheredigion, Glan-llyn yng Ngwynedd a gwersyll Caerdydd ar y brifddinas.

## Llangrannog

**Gwerth economaidd gwersyll Llangrannog i Geredigion:**
**£3.2m**

Dengys y dadansoddiad bod cyfanswm gwerth economaidd gwersyll **Llangrannog i Geredigion yn £3.2m** yn 2022-23. Dengys data gwariant yr Urdd bod gwersyll Llangrannog wedi cael effaith **uniongyrchol** o £2.2m yng Ngheredigion drwy wariant o £0.5m ar nwyddau a gwasanaethau a £1.7m ar gyflogau staff.

**Effaith uniongyrchol Llangrannog yng Ngheredigion – £2.2m**

Yn cynnwys:
Nwyddau a gwasanaethau yng Ngheredigion £0.5m
Cyflogau staff sy'n byw yng Ngheredigion £1.7m

O ran yr effaith **anuniongyrchol,** amcangyfrifwyd bod y 10,800 o blant ac 800 o athrawon a ymwelodd â'r gwersyll yn ystod 2022/23 wedi gwario, ar gyfartaledd, £5 yn ystod eu hymweliad (yn bennaf mewn siopau lleol). Amcangyfrifwyd bod yr 1,875 o deuluoedd a arhosodd yn y gwersyll dros fisoedd yr haf hefyd wedi gwario tua £35 yr un yn ystod eu hymweliad. Mae hyn yn cyfateb i tua £0.1m o wariant yn lleol gan ymwelwyr. Yn ogystal, amcangyfrifir bod gwariant ar gludiant i'r gwersyll gan ysgolion, mudiadau ac unigolion tua £0.2m. Drwy ddefnyddio'r wybodaeth hyn, amcangyfrifwyd bod gwariant **anuniongyrchol** o £0.3m yn digwydd yng Ngheredigion.

**Effaith anuniongyrchol Llangrannog yng Ngheredigion – £0.3m**

Yn cynnwys:
Gwariant ymwelwyr yn lleol £0.1m
Gwariant ar gludiant £0.2m

O ran yr effaith **wedi'i ysgogi**, defnyddiwyd data o'r arolwg cyflenwyr a'r arolwg staff i amcangyfrif bod y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol uchod yn sbarduno rowndiau pellach o wariant yn yr economi leol yn cyfateb i £0.7m.

**Effaith wedi'i ysgogi Llangrannog yng Ngheredigion – £0.7m**

Yn cynnwys:
Gwariant a ysgogir drwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau £0.3m
Gwariant a ysgogir drwy wariant ar gyflogau £0.4m

Yn ogystal a'r uchod, gwariodd yr Urdd tua £0.5m o arian cyfalaf ar welliannau i wersyll Pentre Ifan yng ngogledd Sir Benfro yn ystod 2022-23, gyda'r mwyafrif ohono ar gontractwyr o Gymru.

### Glan-llyn

**Gwerth economaidd gwersyll Glan-llyn i Wynedd: £3.2m**

Dengys y dadansoddiad bod cyfanswm gwerth economaidd gwersyll **Glan-llyn i Wynedd yn £3.2m** yn 2022-23. Dengys data gwariant yr Urdd bod gwersyll Glan-llyn wedi cael effaith **uniongyrchol** o £2.2m yn economi Gwynedd drwy wariant o £0.9m ar nwyddau a gwasanaethau a £1.3m ar gyflogau staff.

**Effaith uniongyrchol Glan-llyn yng Ngwynedd: £2.2m**

Yn cynnwys:
Nwyddau a gwasanaethau yng Ngwynedd £0.9m
Cyflogau staff sy'n byw yng Ngwynedd £1.3m

O ran yr effaith **anuniongyrchol,** amcangyfrifwyd bod ymwelwyr (gan gynnwys plant, athrawon ac ymwelwyr undydd) â'r gwersyll yn gwario, ar gyfartaledd, tua £4 yn ystod eu hymweliad (yn bennaf drwy wariant mewn siopau lleol). Yn ogystal, amcangyfrifwyd bod ymwelwyr yn gwario cyfanswm o £0.2m ar gludiant. Drwy ddefnyddio'r data hyn ynghyd â'r niferoedd ymwelwyr blynyddol (tua 27,000), amcangyfrifwyd bod gwariant **anuniongyrchol** o tua £0.3m yn digwydd yn lleol.

**Effaith anuniongyrchol Glan-llyn yng Ngwynedd: £0.3m**

Yn cynnwys:
Gwariant ymwelwyr - £0.1m
Gwariant ar gludiant - £0.2m

O ran yr effaith **wedi'i ysgogi**, defnyddiwyd data o'r arolwg cyflenwyr a'r arolwg staff i amcangyfrif bod y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol uchod yn sbarduno rowndiau pellach o wariant yn yr economi yn cyfateb i £0.8m.

**Effaith wedi'i ysgogi Glan-llyn yng Ngwynedd: £0.8m***

Yn cynnwys:
Gwariant a ysgogir drwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau £0.4m
Gwariant a ysgogir drwy wariant ar gyflogau £0.3m

*Ffigyrau wedi eu talgrynnu felly nid ydynt yn cyfateb i'r symiau a nodir.

### Gwersyll Caerdydd

**Gwerth economaidd gwersyll Caerdydd i Gaerdydd: £1.4m**

Caerdydd

Dengys y dadansoddiad bod cyfanswm gwerth economaidd **gwersyll Caerdydd i economi Caerdydd yn £1.4m** yn 2022-23. Dengys data gwariant yr Urdd bod gwersyll Caerdydd cael effaith **uniongyrchol** o £0.5m yn economi Caerdydd drwy wariant o £0.2m ar nwyddau a gwasanaethau a £0.3m ar gyflogau staff sydd yn byw yn y brifddinas.

**Effaith uniongyrchol gwersyll Caerdydd yng Nghaerdydd: £0.5m**

Yn cynnwys:
Nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru £0.3m
Cyflogau staff sy'n byw yng Nghymru £0.2m

O ran yr effaith **anuniongyrchol,** amcangyfrifwyd bod ymwelwyr â'r gwersyll (gan gynnwys plant, athrawon ac ymwelwyr undydd) yn gwario, ar gyfartaledd, £32.50 yn ystod eu hymweliad (drwy wariant ar weithgareddau, siopa ac adloniant tra yn y ddinas yn ogystal a gwariant ar gludiant). Drwy ddefnyddio'r amcangyfrif hyn ynghyd â'r niferoedd ymwelwyr blynyddol (12,872), amcangyfrifwyd bod gwariant **anuniongyrchol** o £0.4m yn digwydd yn lleol. Yn ogystal amcangyfrifir bod ymwelwyr yn gwario tua £0.2m ar gludiant.

**Effaith anuniongyrchol gwersyll Caerdydd yng Nghaerdydd: £0.6m**

Yn cynnwys:
Gwariant ymwelwyr yn lleol £0.4m
Gwariant ar gludiant £0.2m

O ran yr effaith **wedi'i ysgogi**, defnyddiwyd data o'r arolwg cyflenwyr a'r arolwg staff i amcangyfrif bod y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol uchod yn sbarduno rowndiau pellach o wariant yn cyfateb i £0.4m.

**Effaith wedi'i ysgogi gwersyll Caerdydd yng Nghaerdydd : £0.4m**

Yn cynnwys:
Gwariant a ysgogir drwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau £0.3m
Gwariant a ysgogir drwy wariant ar gyflogau – llai na £0.1m

## 2.3 Gwerth economaidd gweithgareddau chwaraeon yr Urdd

**Gwerth economaidd adran chwaraeon yr Urdd i Gymru: £6.1m**




Cynhyrchodd weithgareddau chwaraeon yr Urdd £6.1m o werth economaidd yng Nghymru – drwy wariant uniongyrchol gan yr adran chwaraeon a gwariant gan 28,000 o gyfranogwyr clybiau, cystadlaethau, gweithgareddau teulu a digwyddiadau fel Gemau Stryd (Urban Games) a drefnwyd gan yr Urdd.

Gwariodd adran chwaraeon yr Urdd gyfanswm o £0.6m yn 2022-23 yng Nghymru ar nwyddau a gwasanaethau. Yn ogystal, gwariodd yr adran hon £1.1m ar gyflogau staff oedd yn byw yng Nghymru. Golyga hyn mai cyfanswm effaith **uniongyrchol** adran chwaraeon yr Urdd ar economi Cymru oedd £1.7m.

**Effaith uniongyrchol adran chwaraeon yr Urdd: £1.7m**

Yn cynnwys:
Nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru £0.6m
Cyflogau staff sy'n byw yng Nghymru £1.1m

O ran yr effaith **anuniongyrchol**, defnyddiwyd ffigyrau'r Urdd o ran y niferoedd sydd yn mynychu gweithgareddau amrywiol ac amcangyfrifwyd eu gwariant ar nwyddau a gwasanaethau tra'n mynychu'r gweithgareddau hyn.[6] Amcangyfrifwyd bod hyn yn cyfateb i £1.9m.

**Effaith anuniongyrchol adran chwaraeon yr Urdd: £1.9m**

Yn cynnwys:
Gwariant 28,000 o fynychwyr clybiau chwaraeon, cystadlaethau a digwyddiadau eraill £1.9m

O ran yr effaith **wedi'i ysgogi**, defnyddiwyd yr un cyfraddau â'r dadansoddiad cenedlaethol i amcangyfrif bod y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol uchod yn sbarduno rowndiau pellach o wariant yn economi Cymru sydd yn cyfateb i £2.5m.

**Effaith wedi'i ysgogi gan adran chwaraeon yr Urdd: £2.5m**


Yn cynnwys:
Gwariant a ysgogir drwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau £2.0m
Gwariant a ysgogir drwy wariant yr Urdd ar gyflogau £0.5m

[6] Amcangyfrifwyd bod y gwariant canlynol yn cael ei sbarduno yn lleol gan blant a theuluoedd wrth iddynt fynychu digwyddiadau: 8,000 yn ymweld â'r Gemau Stryd (Urban Games) yng Nghaerdydd yn gwario £12.50 y person ar gyfartaledd, gyda 250 yn aros dros nos; 8,000 mewn clybiau chwaraeon wythnosol - £5 y person yr wythnos (gan ragdybio presenoldeb am 40 wythnos y flwyddyn); 5,000 yn mynychu cystadleuaeth rygbi 7-bob-ochr yr Urdd yng Nghaerdydd, 1,000 o rieni yn mynychu chwaraeon cynradd gyda'u plant, 2,500 mewn gweithgareddau rygbi traeth yn y de a'r gogledd, 1,400 yng nghystadleuaeth pêl rwyd cenedlaethol – yn gwario £12.50 y person ar gyfartaledd.

## 2.4 Gwerth economaidd Eisteddfod yr Urdd i Gymru

Amcangyfrifir bod Eisteddfod yr Urdd 2023 wedi cynhyrchu gwerth economaidd o **£16.0m yng Nghymru**.

**Cyfanswm gwerth economaidd Eisteddfod yr Urdd i Gymru – £16.0m**




### Effaith uniongyrchol Eisteddfod yr Urdd yng Nghymru


Mae data gwariant canolog Eisteddfod yr Urdd yn dangos bod y mudiad wedi gwario cyfanswm o:

- £1.9m ar nwyddau a gwasanaethau yn gysylltiedig â chynnal Eisteddfod yr Urdd 2023, gyda 59% o hwn (£1.1m) wedi ei wario gyda chyflenwyr wedi'u lleoli yng Nghymru
- £0.4m ar gyflogau staff sydd i gyd yn byw yng Nghymru.

Golyga hyn mai cyfanswm effaith **uniongyrchol** Eisteddfod yr Urdd ar economi Cymru yn 2022-23 oedd £1.5m.

**Effaith uniongyrchol Eisteddfod yr Urdd yng Nghymru: £1.5m**

Yn cynnwys:
Nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru £1.1m
Cyflogau staff sy'n byw yng Nghymru £0.4m




### Effaith anuniongyrchol yr Eisteddfod yng Nghymru

O ran yr effaith **anuniongyrchol,** casglwyd data arolwg gan ymwelwyr Eisteddfod yr Urdd 2023. Amcangyfrifir, ar sail dadansoddiad o'r data hwn, bod ymwelwyr wedi gwario £1.5m ar fusnesau lleol (h.y. y tu allan i'r maes ond yn Sir Gaerfyrddin) a £1.7m gyda busnesau o Gymru ar y maes (stondinwyr, darparwyr bwyd a diod ayyb).

Gofynnwyd hefyd i ymwelwyr oedd yn aros dros nos yn lleol (ag eithrio ymatebwyr oedd yn byw yn ardal yr Eisteddfod) faint yr oeddynt wedi ei wario ar lety, am sawl noson, a faint o bobl oedd yn eu grŵp. Dengys y dadansoddiad:

- y gwnaeth 30% o ymwelwyr yr Eisteddfod aros dros nos yn yr ardal leol mewn llety preifat (e.e. gwesty, gwely a brecwast, maes carafannau preifat)
- bod yr ymwelwyr a wnaeth aros dros nos, ar gyfartaledd, wedi gwario £61 y person, y noson ar lety yn ystod Eisteddfod yr Urdd 2023 [7]
- bod yr ymwelwyr hyn yn aros yn yr ardal, ar gyfartaledd, am 2.8 noson.

Gan ddefnyddio'r data hwn, ynghyd â data niferoedd ymwelwyr, amcangyfrifir bod ymwelwyr â'r Eisteddfod wedi gwario cyfanswm o £3.8m ar lety (e.e. gwestai, llety preifat, meysydd carafán preifat) yn yr economi lleol.


Yn ogystal, amcangyfrifir bod 90,000 o gystadleuwyr ac ymwelwyr ag Eisteddfodau lleol a rhanbarthol yn gwario £0.5m tra'n ymweld a'r digwyddiadau hyn yn eu hardaloedd lleol.

[7] Eithriwyd gwariant ar lety gan y rheiny oedd yn aros ar faes carafannau maes yr Eisteddfod o'r dadansoddiad hwn gan fod hwn yn incwm uniongyrchol i'r Urdd. Fodd bynnag, cafodd gwariant y rheiny oedd yn aros ar faes carafannau maes yr Eisteddfod ar nwyddau a gwasanaethau lleol eraill ei gynnwys yn y dadansoddiad.

## Effaith anuniongyrchol Eisteddfod yr Urdd yng Nghymru: £7.4m*

Yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Gwariant ymwelwyr dros nos ar lety | £1.5m |
| Gwariant ymwelwyr gyda busnesau o Gymru ar y maes | £1.7m |
| Gwariant ymwelwyr ar fwyd a diod, trafnidiaeth, nwyddau lleol eraill | £3.8m |
| Gwariant gan ymwelwyr a'u heisteddfodau lleol a rhanbarthol | £0.5m |



*Ffigyrau wedi'u talgrynnu felly yw'r gwerthoedd a nodir ar gyfer elfennau unigol bob tro'n cyfateb i'r cyfanswm a nodir

### Effaith wedi'i ysgogi yng Nghymru

O ran yr effaith **wedi'i ysgogi**, mae'r data a gasglwyd o arolwg cyflenwyr yr Urdd yn awgrymu bod busnesau, ar gyfartaledd, yn gwario 90% o'r incwm y maent yn ei ennill (eu tueddiad gwario) a bod 73% o'r gwariant hwnnw ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau staff yng Nghymru (cyfradd cadw).[8] Defnyddiwyd cyfraddau cadw cenedlaethol a chyfradd gwariant o arolwg o staff yr Urdd i amcangyfrif bod 41% o incwm staff Eisteddfod yr Urdd yn cael ei wario yng Nghymru.

Drwy ddefnyddio'r cyfraddau uchod, amcangyfrifir bod y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol uchod yn arwain at effaith wedi'i ysgogi o £7.1m.

## Effaith wedi'i ysgogi gan Eisteddfod yr Urdd yng Nghymru: £7.1m

Yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Gwariant a ysgogir drwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau | £6.9m |
| Gwariant a ysgogir drwy wariant yr Urdd ar gyflogau | £0.2m |




[8] Mae hyn yn gyson ar y cyfan â chyfraddau cadw cyfartalog mewn arolygon blaenorol o gyflenwyr yr Urdd yn ogystal â chyfraddau proffidioldeb net cyfartalog cwmnïau yn y DU.

## 2.5 Gwerth economaidd Eisteddfod yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin

Amcangyfrifir bod Eisteddfod yr Urdd 2023 wedi cynhyrchu gwerth economaidd o **£8.5m yn ardal Sir Gaerfyrddin**.

**Cyfanswm gwerth economaidd Eisteddfod yr Urdd i Sir Gaerfyrddin – £8.5m***




*Ffigyrau wedi'u talgrynnu felly yw'r gwerthoedd a nodir ar gyfer elfennau unigol bob tro'n cyfateb i'r cyfanswm a nodir


### Effaith uniongyrchol yn Sir Gaerfyrddin

Gwariodd adran Eisteddfod yr Urdd gyfanswm o £0.5m yn 2022-23 yn Sir Gaerfyrddin ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau staff a gweithwyr llawrydd. Dyma gyfanswm effaith **uniongyrchol** yr Eisteddfod ar economi Sir Gaerfyrddin.

**Effaith uniongyrchol Eisteddfod yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin: £0.5m**

Yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Nwyddau a gwasanaethau yn Sir Gaerfyrddin | £0.4m |
| Cyflogau staff a gweithwyr llawrydd yn Sir Gaerfyrddin | £0.1m |





### Effaith anuniongyrchol yn Sir Gaerfyrddin

O ran yr effaith **anuniongyrchol,** casglwyd data arolwg gan ymwelwyr Eisteddfod yr Urdd 2023 (gweler adran 2.3 uchod). Gan ddefnyddio hwn, ynghyd â data ar niferoedd ymwelwyr â'r Eisteddfod, mae'n bosibl amcangyfrif bod ymwelwyr wedi gwario £1.5m ar fusnesau lleol (e.e. siopau, bwytai, trafnidiaeth), £3.8m ar lety yn lleol a £0.6m gyda busnesau o Sir Gaerfyrddin ar y maes (e.e. stondinau, arwerthwyr bwyd).

**Effaith anuniongyrchol yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin: £5.8m***

Yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Gwariant ymwelwyr dros nos ar lety | £3.8m |
| Gwariant ymwelwyr gyda busnesau o Sir Gaerfyrddin ar y maes | £0.6m |
| Gwariant ymwelwyr ar fwyd a diod, trafnidiaeth, nwyddau lleol eraill | £1.5m |



*Ffigyrau wedi'u talgrynnu felly yw'r gwerthoedd a nodir ar gyfer elfennau unigol bob tro'n cyfateb i'r cyfanswm a nodir.

### Effaith wedi'i ysgogi yn Sir Gaerfyrddin

O ran yr effaith **wedi'i ysgogi**, defnyddiwyd yr un cyfraddau â'r dadansoddiad cenedlaethol i amcangyfrif bod y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol uchod yn sbarduno rowndiau pellach o wariant yn economi Sir Gaerfyrddin sydd yn cyfateb i £2.2m.

**Effaith wedi'i ysgogi Eisteddfod yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin: £2.2m**

Yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Gwariant a ysgogir drwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau | £2.2m |
| Gwariant a ysgogir drwy wariant yr Urdd ar gyflogau | Llai na £0.1m |




### Enillion ar fuddsoddiad

Roedd gan Eisteddfod yr Urdd incwm o £2.3m yn 2023. Drwy rannu ffigwr gwerth economaidd Eisteddfod yr Urdd ar gyfer 2023 (£16.0m) gyda'r ffigwr incwm hyn, gellir dangos bod Eisteddfod yr Urdd wedi cynhyrchu gwerth economaidd o £6.96 yng Nghymru am bob £1 o incwm a dderbyniwyd.

## 3. Effaith gweithgareddau’r Urdd ar bobl ifanc

Mae’r Urdd yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ar draws pob cwr o Gymru gymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n ymwneud â chwaraeon, diwylliant, celfyddydau, gweithgareddau cymunedol a rhyngwladol. Cynhaliwyd arolwg o’r bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau’r Urdd yn ystod haf 2023 i gasglu eu barn ar sut yr oedd y gweithgareddau hyn wedi effeithio ar eu sgiliau, eu hyder a’u safbwyntiau ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Fe wnaeth 103 o bobl ifanc gwblhau’r arolwg rhwng mis Awst a Hydref 2023.

Gofynnwyd i’r pobl ifanc a wnaeth cwblhau’r arolwg, i ba raddau roeddent yn cytuno a’r datganiadau a gyflwynir yn yr adrannau isod.

### 3.1 Sgiliau cymdeithasol

Mae'r canfyddiadau arolwg yn cynnig arwydd cryf bod pobl ifanc yn teimlo bod cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd yn gwella eu sgiliau cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu bod eu cyfranogiad mewn gweithgareddau wedi gwella eu sgiliau cymdeithasol a'u hyder yn ogystal â'u gallu i gyfathrebu ag eraill.

Ar ôl cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd rwy'n teimlo'n fwy hyderus...

- ...mewn sefyllfaoedd cymdeithasol
  - **89% yn cytuno** (39% yn cytuno’n gryf a 50% yn cytuno)
- ...i gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill
  - **93% yn cytuno** (46% yn cytuno’n gryf a 48% yn cytuno)
- ...wrth gyfathrebu
  - **87% yn cytuno** (40% yn cytuno’n gryf a 47% yn cytuno)
- ...i siarad Cymraeg
  - **89% yn cytuno** (64% yn cytuno’n gryf a 25% yn cytuno).

### 3.2 Sgiliau yn ac agweddau at y Gymraeg

Mae'r ymatebion isod yn amlinellu bod y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo bod cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd yn gwella eu sgiliau a'u hagweddau tuag at yr iaith. Mae hyn yn amlwg yn bwysig gan ei fod yn cefnogi un o nodau allweddol yr Urdd h.y. cefnogi'r Gymraeg. Mae’r canfyddiadau hefyd yn dangos sut mae gweithgareddau'r Urdd yn cefnogi blaenoriaethau strategol eraill gan gynnwys nod *Cymraeg 2050* i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Ar ôl cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd rwy'n...

- ...teimlo’n fwy positif am yr iaith Gymraeg
  - **92% yn cytuno** (65% yn cytuno’n gryf a 27% yn cytuno)
- ...fwy tebygol o ddefnyddio’r iaith Gymraeg
  - **88% yn cytuno** (55% yn cytuno’n gryf a 33% yn cytuno)
- ...teimlo fy mod yn deall mwy am Gymru
  - **73% yn cytuno** (32% yn cytuno’n gryf a 41% yn cytuno).

## 3.3 Lles a sgiliau emosiynol

Mae gweithgareddau'r Urdd yn aml yn creu cyfleoedd i bobl ifanc gael profiadau newydd sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar eu lles a'u sgiliau emosiynol. Awgryma’r canfyddiadau isod y cyflwynir y gweithgareddau mewn amgylchedd cyfeillgar a chynhwysol ac, yn ôl yr ymatebion, ymddengys bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a hunanwerth ehangach y rhai sy'n cymryd rhan.

Ar ôl cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd rwy'n...

- ...teimlo'n fwy parod i gymryd rhan mewn pethau newydd
  - **93% yn cytuno** (49% yn cytuno’n gryf a 44% yn cytuno)
- ...fwy parod i rannu fy marn
  - **80% yn cytuno** (32% yn cytuno’n gryf a 48% yn cytuno)
- ...deall yn well bod fy nghyfraniad i mor werthfawr â chyfraniad pawb arall
  - **83% yn cytuno** (37% yn cytuno’n gryf a 46% yn cytuno)
- ...fwy tebygol o ofyn am gymorth pan rwyf ei angen
  - **70% yn cytuno** (31% yn cytuno’n gryf a 39% yn cytuno) – 23% ddim yn siŵr
- ...gwybod fod gen i nifer o nodweddion positif
  - **88% yn cytuno** (30% yn cytuno’n gryf a 58% yn cytuno)
- ...teimlo'n fwy balch o fy hun
  - **89% yn cytuno** (43% yn cytuno’n gryf a 47% yn cytuno)

## 3.4 Mwynhad o’r gweithgareddau

Mae’r ymatebion isod yn awgrymu bod pobl ifanc sy’n cymryd rhan yng ngweithgareddau’r Urdd yn eu mwynhau ac yn gwneud ffrindiau. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod yr Urdd yn gallu denu pobl ifanc i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau gan gryfhau eu sgiliau ieithyddol a’u sgiliau cymdeithasol ac emosiynol ymhellach.

Tra'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd mi wnes i...

- ...gael hwyl
  - **100% yn cytuno** (79% yn cytuno’n gryf a 21% yn cytuno)
- ...wneud ffrindiau
  - **90% yn cytuno** (60% yn cytuno’n gryf a 30% yn cytuno)

Mae canlyniadau llawn yr arolwg ar gael yn Atodiad 1.

## 4. Effaith gwaith cymunedol ac ieuenctid yr Urdd

Mae'r Urdd, trwy waith ieuenctid a chymuned y mudiad, yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau unigryw i bobl ifanc ledled Cymru gan cynnwys:

- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Profiadau preswyl
- Cyrsiau ac achrediadau
- Clybiau cymunedol ac ysgol
- Fforymau Ieuenctid
- Teithiau rhyngwladol
- Theatr Ieuenctid.

Trwy waith ieuenctid yr Urdd mae pobl ifanc yn cael y cyfle i gwrdd a phobl newydd, i ddysgu sgiliau newydd, i drefnu digwyddiadau eu hunain ac i wneud cyfraniad cymdeithasol cadarnhaol.

Mae nifer o astudiaethau yn dangos bod gwaith ieuenctid, fel y gynigir gan yr Urdd, yn ychwanegu gwerth at cwricwlwm statudol, yn cyfrannu at lefelau o gyrhaeddiad academaidd ac yn lleihau'r risg fod pobl ifanc allan o waith, addysg a hyfforddiant (NEET)[9].


Mae ymchwil gan Frontier Economics yn 2022 ac Adolygiad Cyllid Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru 2023 yn ceisio mesur gwerth gwaith ieuenctid. Mae astudiaeth Frontier Economics yn cyfeirio at amcangyfrifon o enillion ar fuddsoddiad rhwng £3.20 a £6.40 am bob £1 a fuddsoddir mewn gwaith ieuenctid. Mae Adolygiad Cyllid Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at gyfrifo cyfanswm gwerth gwaith cymdeithasol yn yr Alban lle mae'n cael ei amcangyfrif bod hwnnw'n cynhyrchu enillion o £7 am bob £1 sy'n cael ei wario.

Gwariodd adran ieuenctid a chymuned yr Urdd £1.5m yn 2022-23. Os, ar sail y canfyddiadau uchod, defnyddiwn yr amcangyfrif mwyaf ceidwadol o enillion ar fuddsoddiad, sef £3, byddai hyn yn awgrymu y gallai gwerth cymdeithasol gwariant adran ieuenctid a chymuned yr Urdd fod yn £4.5m.

[9] Gwaith ieuenctid mewn ysgolion (Arad, 2015)

## 5. Prentisiaethau

Yn Ebrill 2023, roedd yr Urdd yn darparu rhaglen brentisiaeth i 149 o unigolion drwy gydweithio â 52 o gyflogwyr ar draws Cymru.




- Mae'r Urdd yn cynnig **prentisiaethau o** fewn y sectorau **Chwaraeon**, **Chwaraeon mewn Addysg, Gofal Plant, Awyr Agored a Gwaith Ieuenctid**
- Yn gyfredol, mae'r Urdd yn gweithio mewn partneriaeth â **56 o gyflogwyr** i gynnig prentisiaethau allanol
- Ers 2016 mae **434 o ddysgwyr wedi cychwyn** prentisiaeth a **290 wedi cyflawni** prentisiaeth drwy'r Urdd
- Mae **149 wrthi'n gweithio tuag at** eu prentisiaeth
- **Mae 80%** o'r unigolion **a gwblhaodd prentisiaeth** yn adrannau'r Urdd **mewn cyflogaeth gyda'r Urdd**

Trwy ei Adran Brentisiaethau, mae'r Urdd yn cynnig hyfforddiant am ddim drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog i brentisiaid a chyflogwyr ledled Cymru. Mae'r cynllun wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r prentisiaethau ar gael i unrhyw un dros 16 oed sy'n gweithio o fewn y meysydd canlynol.

- Ysgolion Cynradd, Uwchradd, Arbennig
- Canolfannau Hamdden
- Lleoliadau neu glybiau chwaraeon
- Canolfannau Awyr Agored
- Meithrinfeydd Dydd, Cylchoedd meithrin a meithrinfeydd o fewn ysgolion
- Darpariaeth ieuenctid

Mae'r prentisiaethau yn para rhwng 15 – 21 mis, yn ddibynnol ar pa fframwaith mae dysgwyr yn ei ddilyn.

Mae'r Urdd yn darparu prentisiaethau i staff y mudiad o fewn yr Adran Chwaraeon a'r Gwersylloedd. Golyga hyn bod yr Urdd yn medru meithrin talent a datblygu gweithlu cymwys a phrofiadol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Darperir hyfforddiant ar ffurf prentisiaeth i gyflogai cwmnïoedd a sefydliadau eraill ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys canolfannau hamdden, cynghorau sir, ysgolion a chanolfannau awyr agored.

Mae'r prentisiaethau a gynigir yn amrywio o Lefel 2 yn Arwain Gweithgareddau i Lefel 5 ym maes Gofal, Chwarae a Datblygiad Plant. Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu cydnabod o fewn y byd gwaith ledled y DU.

Ers 2016 mae 434 o unigolion wedi dechrau prentisiaeth ac erbyn hyn mae 290 wedi cwblhau'i cwrs gyda 149 dal yng nghanol eu cyfnod prentisiaeth. Mae unigolion o bob

awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymgymryd â phrentisiaeth drwy'r Urdd. Mae'r rhan fwyaf o unigolion sy'n ymgymryd â phrentisiaethau'r Urdd bob blwyddyn rhwng 18 a 25 oed, gyda thraean ohonynt dros 25 oed. Yn 2022/2023 mae'r rhaglen wedi denu unigolion o wahanol gefndiroedd, gyda 4 o'r prentisiaid cyfredol o gefndiroedd nad ydynt yn wyn. Mae hyn nid yn unig yn cefnogi mwy o amrywiaeth a chydraddoldeb o fewn gweithlu'r Urdd, ond hefyd yn cefnogi mwy o amrywiaeth ymhlith y cyflogwyr eraill yn y sectorau a restrir uchod ac yn eu helpu i ddatblygu fwy o gapasiti i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae cyfartaledd o 85 o ddysgwyr yn cychwyn rhaglen prentisiaeth yr Urdd yn flynyddol. Mae 30 o'r rhain yn cael eu cyflogi gan yr Urdd ac mae'r gweddill yn cael eu cyflogi gyda sefydliadau eraill ledled Cymru.

Mae'r adborth gan brentisiaid yn dangos bod y mwyafrif helaeth o'r farn eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o gymryd rhan mewn prentisiaeth gyda'r Urdd ac wedi ennill sgiliau gwerthfawr yn y broses (gweler ymatebion llais y dysgwr isod). Mae adborth a dderbyniwyd gan yr Urdd ar hynt prentisiaid yn dangos bod 85% ohonynt (290 o'r 339 prentis a dderbyniodd hyfforddiant hyd at 2022) wedi naill ai parhau mewn swydd neu wedi derbyn cyflogaeth newydd neu wedi parhau mewn addysg, o fewn 3 mis i gwblhau'r brentisiaeth.

## 5.1 HWB Sgiliau Hanfodol

Mae'r HWB yn darparu cymwysterau Sgiliau Hanfodol drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, ledled Cymru. Gweledigaeth yr HWB yw sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn derbyn yr un flaenoriaeth â'r Saesneg wrth gwblhau'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Mae gwasanaethau'r HWB yn cefnogi prentisiaid, a thrwy cynnig darpariaeth dwyieithog, yn sicrhau bod pob prentis, gan cynnwys y rhai nad oes ganddynt lawer o hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, yn gallu gwella ac ehangu ar eu sgiliau cyfathrebu Cymraeg.

Mae'r HWB hefyd yn cynnig cymwysterau Sgiliau Hanfodol ar gyfer dysgwyr eraill ar draws Cymru ac, erbyn hyn, mae darparwyr a cholegau addysg bellach eraill yn cyfeirio'u dysgwyr i'r HWB i'w galluogi i ennill y cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl eu dewis.

## 5.2 Rhaglenni prentisiaeth a gynigir gan yr Urdd

Mae'r Urdd yn cefnogi prentisiaethau o fewn y meysydd canlynol.

- Arwain Gweithgareddau – Lefel 2
- Datblygu Chwaraeon – Lefel 3
- Rhaglenni Awyr Agored – Lefel 3
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant – Lefel 2 a Lefel 3
- Cefnogi Dysgu ac Addysgu Mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol
- Ymarfer Gwaith Ieuenctid Lefel 2 a Lefel 3
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth Gofal, Chwarae a Datblygiad Plant – Lefel 5

Mae manylion pellach ar y cymwysterau hyn ar gael yn Atodiad 2

## 5.2 Llais y dysgwr

Cwblhaodd 45 o brentisiaid yr Urdd arolwg 'llais y dysgwr' yn 2022/23. Dengys data'r ymatebion bod y prentisiaid yn teimlo bod eu sgiliau yn datblygu'n dda, gan gynnwys y Gymraeg, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan yr Urdd:


- Roedd 87% o brentisiaid a ymatebodd yn teimlo bod eu sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol yn cael eu datblygu gan eu haseswr/tiwtor.
- Roedd 98% o'r prentisiaid wedi nodi eu bod yn aml yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cwrs neu yn eu gweithle.
    - Nododd 96% eu bod yn aml yn gweld Cymraeg.
    - Nododd 98% eu bod yn clywed Cymraeg yn aml.
- Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod ymarferwyr (hyfforddwyr/aseswyr) yn cynnwys dysgwyr yn y broses gynllunio.
- Roedd mwyafrif y prentisiaid yn teimlo bod ymarferwyr yn rhoi adborth i'w cefnogi'n dda.
    - 44% yn dda iawn, 33% yn eithaf da, 16% yn dda, 7% ddim yn dda iawn.
- Roedd 90% o'r dysgwyr yn credu bod yr Urdd yn defnyddio systemau e-bortffolio yn dda.
- Roedd 95% o'r dysgwyr yn credu bod yr Urdd yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol yn dda.
- Roedd 97% o'r dysgwyr yn credu bod y wybodaeth a roddwyd iddynt ar ddechrau'r rhaglen yn glir.
- Roedd pob dysgwr yn teimlo bod staff wedi eu helpu i ymgartrefu ar eu cwrs yn dda, gyda 77% yn ymateb yn 'dda iawn'.


## Atodiad 1 - Canlyniadau arolwg cyfranwyr gweithgareddau’r Urdd


Mae’r atodiad isod yn cynnwys canlyniadau o arolwg o bobl ifanc â gymerodd ran mewn gweithgareddau’r Urdd yn ystod haf 2023. Nifer yr ymatebwyr i’r arolwg oedd 103.


### Sgiliau cymdeithasol

- **Ar ôl cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd rwy'n teimlo'n fwy hyderus...**















## Sgiliau yn ac agweddau at y Gymraeg

- **Ar ôl cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd rwy'n...**






...teimlo fy mod yn deall mwy am Gymru
0%
1
32%
41%
15%
12%
0%
20%
40%
60%
80%
100%
120%
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn siwr
Anghytuno
Anghytuno'n gryf



...fwy tebygol o ddefnyddio’r iaith Gymraeg
1
55%
33%
9%
3%
0%
20%
40%
60%
80%
100%
120%
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn siwr
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


## Lles a sgiliau emosiynol


- **Ar ôl cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd rwy'n...**






...fwy tebygol o ofyn am gymorth pan rwyf ei angen
31%
39%
23%
7%
0%
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn siwr
Anghytuno
Anghytuno'n gryf



. ...gwybod fod gen i nifer o nodweddion positif
30%
58%
12%
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn siwr
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


...teimlo'n fwy balch o fy hun
43%
47%
10%
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn siwr
Anghytuno
Anghytuno'n gryf

## Mwynhau'r gweithgareddau

- **Tra'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd mi wnes i...**



## Atodiad 2 - Cymwysterau a Chynlluniau Dysgu Prentisiaethau'r Urdd

Prentisiaethau

Fframwaith Arwain Gweithgareddau

- Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau (Llwybr arweinyddiaeth) Chwaraeon
- Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau (Llwybr arweinyddiaeth) Awyr Agored
- Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau (Llwybr arweinyddiaeth) Ysgolion

Fframwaith Datblygu Chwaraeon

- Prentisiaeth Lefel 3 Datblygu Chwaraeon
- Prentisiaeth Lefel 3 Datblygu Chwaraeon

Fframwaith Rhaglenni Awyr Agored

- Prentisiaeth Lefel 3 Rhaglenni Awyr Agored

Fframwaith Gwaith Ieuenctid

- Prentisiaeth Lefel 2 Gwaith Ieuenctid
- Prentisiaeth Lefel 3 Gwaith Ieuenctid

Fframwaith Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

- Prentisiaeth Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Fframwaith Arwain Gweithgareddau

- Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau (Llwybr arweinyddiaeth) Hyfforddi
- Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau (Llwybr arweinyddiaeth) Awyr Agored
- Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau (Llwybr arweinyddiaeth) Ysgolion
- Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau (Llwybr arweinyddiaeth) Hamdden

Fframwaith Datblygu Chwaraeon

- Prentisiaeth Lefel 3 Datblygu Chwaraeon

Fframwaith Rheoli Hamdden

- Prentisiaeth Lefel 3 Rheoli Hamdden

Fframwaith Rhaglenni Awyr Agored

- Prentisiaeth Lefel 3 Rhaglenni Awyr Agored

Fframwaith Gwaith Ieuenctid

- Prentisiaeth Lefel 2 Ymarfer Gwaith Ieuenctid
- Prentisiaeth Lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid

Fframwaith Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

- Prentisiaeth Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Prentisiaeth Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Prentisiaeth Lefel 4 mewn Ymarfer Broffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Prentisiaeth Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant